

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### 309 - Beirniadaeth Creu Ap 25 Oed Ag Eithrio Disgyblion Ysgol

#### Beirniad: Tomos H Evans

##### Cyntaf- Morgan Dudley

Mae'r syniad cyffredinol yn ymddangos yn ddiddorol ac yn ddeniadol, gyda'r chwaraewr yn teithio tirwedd sy'n newid yn barhaus, yn osgoi ei beryglon, wrth geisio casglu gwrthrychau i gyflawni'r sgôr uchaf. Gallai'r holl ffactorau hyn gyfuno i greu profiad cyffrous a heriol i unrhyw chwaraewr. Mae'r arddull o ansawdd uchel, gyda dewislen addas ac esboniad o'r gêm ei hun, yn amlinellu sut mae'r dirwedd yn esblygu, pa rwystrau all ddod i'r amlwg, ble y gellir darganfod pethau, a lle gall Mr Urdd groesi.

Mae'n wych bod y gêm yn cymryd y sgrin gyfan, gyda'r rhyngwyneb defnyddiwr yn dangos y sgôr pwyntiau. Mae hyn yn denu chwaraewyr i gadw llygaid ar y sgôr wrth iddo godi'n uwch ac yn uwch, yn hytrach na chael eich ffocws ar ddewislen ac eiconau rheoli. Er bod rheolaethau'r cymeriad yn syml, maent i bob pwrpas yn cael eu cydbwysu'n dda gan amgylchedd annisgwyl sy'n cadw'r chwaraewr i ddisgwyl y rhwystrau nesaf ac yn barod i dapio'r sgrin pan fydd wedi dod o hyd i'r llwybr mwyaf diogel.

##### Ail- Kate Harffey

Teyrnged raenus i genre gemau symudol poblogaidd 'Endless Runner'. Cyflwynwyd yn dda iawn, gydag egwyddorion sylfaenol sydd at raidd pob gêm bleserus a deniadol. Mae'r delweddau o ansawdd uchel, sy'n ei gwneud hi'n hawdd dychmygu sut y gallai'r gêm derfynol edrych, yn enwedig y nodwedd sgrin 'Ymgais eto' a 'Llwytho', sydd yn cyfleu ymdeimlad cryf o fethiant yn ogystal â buddugoliaeth.

Mae gweld Mr Urdd wedi ei anafu ac yn ddigalon yn fy ysbrydoli i drio dro ar ôl tro nes i mi lwyddo o'r diwedd a chael y sgôr uchaf bosib. Mae'n wych bod y gêm yn cymryd y sgrin gyfan, heb unrhyw reolaethau na dewislen i dynnu sylw oddi wrth y gêm ei hun. Mae defnyddio nodweddion sigledig y sgrin ar gyfer neidio yn wych gan ei fod yn gwneud i'r gêm deimlo'n fwy rhyngweithiol ac yn ychwanegu ymdeimlad o frys i osgoi'r rhwystrau.